Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pentre'r Eglwys
# Neuadd y Plwyf
# Prif Ffordd
# Pentre'r Eglwys
# CF38 1PY

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae’r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae’r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy’n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol, ac mae’r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau’n gorbwyso’r meysydd i’w gwella a/neu mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae’r meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau a/neu mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol:
www.estyn.gov.uk
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2016**

## Gwybodaeth am y lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pentre'r Eglwys |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal sesiynol |
| Person(au) Cofrestredig | Lisa Thomas |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Kirsty Jones a Catherine Hibbert |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir ar gyfer eu haddysg | 16 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun i Gwener 8.45am i 11.45am a 12.15pm i 3.15pm |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg yw prif iaith y gofal yn sesiwn y bore, a defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn sesiwn y prynhawn |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 6 Mawrth 2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw'r arolygiad cyntaf gan Estyn |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 2 a 3 Chwefror 2016 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae bron yr holl blant yn siarad Saesneg ac mae ychydig iawn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r sesiwn adeg yr arolygiad. Mae saith o aelodau staff amser llawn ac un aelod staff rhan-amser yn y lleoliad. Bydd yn cyfarfod yn Neuadd y Plwyf ac mae'r amgylchedd dysgu yn cael ei osod a'i roi i gadw yn ddyddiol. Mae'r lleoliad wedi darparu addysg ran-amser i blant tair oed ers 2013, ac mae hefyd yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg.

## Crynodeb o'r adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Rhagorol |

**Diffyg cydymffurfio**

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r gweithgareddau dan arweiniad oedolion i wneud y gorau o gyfleoedd dysgu

A2 Sicrhau bod cynllunio ar gyfer gweithgareddau â ffocws yn rhoi ystyriaeth lawn i gyfnod datblygu plant er mwyn bodloni eu hanghenion unigol yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer orau a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae plant yn hapus, yn ddiddig ac yn gyfforddus gyda'r ymarferwyr. Maent yn mynd i mewn i'r lleoliad gan chwerthin a gwenu, ac mae bron pob un ohonynt yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Mae pob un o'r plant yn dewis gweithgaredd yn frwdfrydig cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd, a bydd llawer ohonynt yn dyfalbarhau am gyfnod amser rhesymol. Er enghraifft, dangosodd ychydig o blant lefelau canolbwyntio da wrth gwblhau gweithgaredd edafu neu wrth wneud toes gyda'r fflŵr. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o blant yn cynnal diddordeb bob amser mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion, fel stori grŵp neu amser cylch. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i roi cynnig ar bethau newydd a chymryd risgiau. Mae ychydig o blant yn ochelgar rhag ymwneud â gweithgareddau chwarae brwnt, ond, gyda chymorth sensitif ymarferwyr, maent yn plannu ffa yn y pridd ac yn chwarae'n frwdfrydig gyda'r ewyn eillio.

Mae bron yr holl blant yn cyfathrebu ac yn mynegi'u hunain yn dda, ac maent yn datblygu medrau iaith priodol gan ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu at syniadau ar gyfer gweithgareddau, a bydd ymarferwyr yn cofnodi'r rhain ar y bwrdd siart swigod. Mae plant yn mynd at ymarferwyr yn hyderus ac yn gwybod y byddant yn ymateb i'w dymuniadau. Er enghraifft, fe wnaeth ymarferwyr eistedd gyda phlant unigol i ddarllen stori iddynt yr oeddent wedi gofyn amdani. Mae plant sydd wedi cynhyrfu yn ailddechrau chwarae yn gyflym ar ôl i ymarferwyr eu cysuro a thawelu eu meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau priodol ynglŷn â gweithgareddau, ac yn mynegi'u barnau yn hyderus ynglŷn â beth maent eisiau ei wneud yn y lleoliad. Er enghraifft, roedd plant yn defnyddio ffôn symudol i ddewis, archebu a thalu am geir yr oeddent eu heisiau ar gyfer y garej. Roeddent wedi cyffroi ac yn falch pan gyrhaeddodd y ceir. Mae plant yn dangos mwynhad yn eu gweithgareddau dewisedig, ac maent yn cael ymdeimlad o gyflawni o'r hyn maent yn ei wneud. Er enghraifft, mae plant yn awyddus i ddangos eu dreigiau Tsieineaidd gorffenedig i ymarferwyr, a'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda. Maent yn ystyriol o blant eraill ac yn rhannu offer yn dda. Mae bron yr holl blant yn cymryd gofal priodol o adnoddau ac yn rhoi help llaw i dacluso. Maent yn dechrau cymryd eu tro, er enghraifft wrth chwarae'r gêm banana. Maent hefyd yn dechrau cydweithredu'n briodol, fel pan fyddant yn helpu ei gilydd i gario llun mawr wedi'i baentio allan i'r cyntedd i sychu.

Mae plant yn dysgu ystod dda o fedrau hunangymorth ac maent yn dod yn fwy annibynnol. Adeg byrbryd, maent yn dewis beth maent ei eisiau i'w fwyta ac yn gyfrifol am arllwys eu diodydd eu hunain, taenu menyn ar eu bara a chlirio'u platiau. Mae llawer o blant yn gwisgo ffedogau heb gymorth, ac yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn annibynnol.

| **Dysgu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig)** | Da |
| --- | --- |

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cyflawni'n dda yn y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar eu cyfer.

Mae bron yr holl blant yn llwyddo i wneud eu hunain yn ddealledig yn effeithiol. Maent yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda ac yn ymateb i gwestiynau gan ymarferwyr yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno wrth ganu caneuon a rhigymau yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau dewis eu hoff ganeuon ac yn eu hailadrodd yn hyderus. Mae medrau siarad y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n addas, yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Mae bron yr holl blant yn mwynhau clywed storïau ac edrych ar lyfrau, gan eu trin a thrafod yn gywir. Gall ychydig o blant mwy abl adnabod llythrennau ac maent yn dechrau darllen geiriau syml fel 'mam' yn hyderus. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau arbrofi gyda gwneud marciau, gan ddefnyddio ewyn eillio, sialciau, pennau ffelt a phensiliau gyda rheolaeth gynyddol. Mae ychydig o blant mwy abl yn defnyddio gafael briodol i ddal eu pensiliau. Mae'r plant hyn yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir, fel y llythrennau yn eu henwau.

Mae bron yr holl blant yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda. Gallant gyfrif yn hyderus hyd at ddeg ar eu cof, ac maent yn dechrau adnabod rhifau yn llwyddiannus, er enghraifft pan fyddant yn enwi'r rhifau y dônt o hyd iddynt mewn hambwrdd mawr o sbageti. Mae'r rhan fwyaf o blant yn adnabod siapiau syml ac yn siarad yn hyderus am feintiau a hydoedd gwahanol, fel pan fyddant yn disgrifio'r dreigiau Tsieineaidd sy'n dawnsio, gan gymharu eu gyddfau hir â gyddfau deinosoriaid. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau hyderus ynglŷn â ble maent eisiau chwarae. Maent yn datrys problemau yn dda, fel gweithio allan sut i ffitio dwy ddoli i'r bath baban. Mae llawer o blant yn ymuno'n briodol â gweithgareddau corfforol, fel y sesiwn gerddoriaeth a symud reolaidd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdrin ag offer bach gyda mwy a mwy o reolaeth, yn defnyddio gweill bwyta i godi sbageti ac yn dyfalbarhau'n dda i ddefnyddio gefell fach i godi cardiau allan o'r trei tywod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'u medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn briodol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o blant yn tueddu colli diddordeb mewn ychydig o weithgareddau grŵp. Mae bron yr holl blant yn dod yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg yn eu chwarae. Maent yn cyfeirio teganau batri gyda mwy o reolaeth ac yn mwynhau defnyddio'r bysellfwrdd electronig i wneud cerddoriaeth.

| **Gofal a datblygiad** | Da |
| --- | --- |

Ceir trefniadau effeithiol yn y lleoliad i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o fyw'n iach. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant perthnasol ac yn rhoi gweithdrefnau hylendid da ar waith yn briodol. Mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta amrywiaeth o fwyd iach, gan gynnwys ffrwythau a llysiau ffres. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg trwy gynorthwyo'r plant i frwsio eu dannedd. Mae dŵr yfer ar gael ac mae'n hawdd i'r holl blant fynd ato. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae yn yr awyr agored a gweithgareddau corfforol, ac mae dillad awyr agored priodol ar gael yn barod i alluogi plant i fynd allan ym mhob tywydd. Hefyd, mae ymarferwyr yn darparu gweithgaredd corfforol dan do bob dydd, er enghraifft dawnsio, balansio neu gêm redeg.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol o'r holl blant ac yn gweithio'n agos â rhieni a gofalwyr. Maent yn gyfarwydd ag anghenion iechyd a meddygol unigol y plant, a lle bo'n berthnasol maent wedi mynychu hyfforddiant i gefnogi anghenion penodol. Mae'r gweithwyr allweddol yn adnabod eu plant yn dda ac yn monitro'u datblygiad a'u targedau unigol yn fanwl. Mae ymarferwyr yn ymestyn chwarae plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, penderfynodd ychydig o blant i baentio'r doliau, ac ymatebodd ymarferwyr drwy ddarparu tybiau ymolchi a dŵr i alluogi'r plant i olchi'r doliau ar ôl iddynt orffen y gweithgaredd. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf addas er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch plant, ac maent yn dilyn gweithdrefnau priodol ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau.

Ceir trefniadau effeithiol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol, fel therapyddion lleferydd ac ymwelwyr iechyd. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal at adnoddau a gweithgareddau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau, gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar. Maent i gyd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gofal personol.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda. Maent yn fodelau rôl da ac yn rhyngweithio'n gyson â phlant mewn modd tawel a thyner. Maent yn llwyddo i wrthdynnu sylw plant sy'n dangos ymddygiad digroeso ac yn ennyn eu diddordeb yn gyflym mewn gweithgareddau eraill. Mae'r holl ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant i sicrhau bod eu strategaethau ymddygiad a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn ddiweddar.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig)** | Da |
|---|---|

Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio ystod eang o brofiadau diddorol y mae plant yn eu mwynhau. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau a diddordebau plant a rhieni er mwyn eu helpu i benderfynu ar themâu a thestunau addas, fel 'Gwledd y Gaeaf / Winter Wonderland'. Mae ymarferwyr yn defnyddio Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, gan ganolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu dros gyfnod.

Mae ymarferwyr yn darparu llawer o brofiadau dysgu buddiol sy'n helpu plant i gynyddu o ran hyder a gwneud dewisiadau annibynnol. Maent yn cynnig gweithgareddau diddorol sy'n helpu plant i ddatblygu medrau newydd yn effeithiol drwy eu chwarae. Er enghraifft, mae plant yn cymysgu fflŵr gyda chyflyrydd gwallt i wneud toes, gan archwilio gweadau ac aroglau gwahanol. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau meddwl plant yn effeithiol pan fyddant yn darparu cliwiau lluniau i helpu plant ddod o hyd i ffrindiau cymeriad stori. Ceir llawer o gyfleoedd gwerthfawr i

annog creadigrwydd plant, gan gynnwys pan fyddant yn paentio wrth wrando ar gerddoriaeth. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu’u medrau corfforol dan do ac ar ymweliadau rheolaidd â’r parc cyfagos.

Mae ymarferwyr yn ychwanegu adnoddau diddorol yn rheolaidd i’r holl feysydd dysgu. Mae’r rhain yn annog plant i ddatblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda drwy eu chwarae. Mae ymarferwyr yn cynllunio tasgau â ffocws sy’n arbennig o effeithiol o ran cynorthwyo plant mwy abl i ddatblygu’u medrau darllen ac ysgrifennu cynnar. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau â ffocws bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i blant ymarfer ac ymgorffori medrau gwneud marciau mwy sylfaenol, ac weithiau mae storïau yn rhy heriol i gynnal diddordeb plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn defnyddio caneuon a straeon yn effeithiol i gynorthwyo datblygiad iaith plant, gan gyflwyno geirfa newydd mewn cyd-destun defnyddiol. Mae’r lleoliad yn darparu amrywiaeth ddiddorol o adnoddau sy’n datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant yn dda.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Trwy gydol y sesiynau, mae ymarferwyr yn addysgu plant ynglŷn â gonestrwydd, tegwch a pharch wrth iddynt eu hannog i rannu’u teganau a chymryd eu tro. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i blant fod yn chwilfrydig ynglŷn â’u bywydau a’u credoau eu hunain a phobl eraill drwy ymwelwyr â’r lleoliad, a thrwy ddathlu digwyddiadau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ganu caneuon traddodiadol a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymdeimlad o syfrdan a rhyfeddod yn briodol trwy blant yn plannu bylbiau yn yr ardd a mynd am droeon yn yr ardal leol. Ceir cyfleoedd addas i blant ddysgu am ailgylchu bwyd gwastraff, papur a phlastig.

Mae dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen gan bron pob un o’r ymarferwyr. Maent yn gweithio’n sensitif ac yn fedrus ochr yn ochr â’r plant, gan ymateb yn briodol i’w cymeriadau gwahanol. Maent yn fodelau rôl da, yn canolbwyntio’n dda ar ddatblygu medrau iaith plant ac yn gwneud defnydd priodol o ganeuon i helpu plant ddilyn y drefn ddyddiol. Mae bron yr holl ymarferwyr yn holi plant yn briodol, gan eu helpu i ddatblygu’u medrau meddwl yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd chwarae yn cael ei ysgogi gan y plentyn, gan roi cyfleoedd ystyrlon i blant ddatblygu’u hannibyniaeth a dilyn eu diddordebau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ymarferwyr yr un mor glir ynghylch sut y dylent reoli ymddygiad plant yn ystod gweithgareddau dan arweiniad oedolion. O ganlyniad, nid yw pob plentyn yn cyfranogi mor weithgar ag y gallai. Mae ymarferwyr yn gweithio’n galed i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol, heriol a chyffrous dan do y mae plant yn ei fwynhau, gan gefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o werth chwarae yn yr awyr agored ac maent yn darparu cyfleoedd ystyrlon yn y gofod bach sydd ar gael.

Mae bob un o’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn asesu plant yn rheolaidd ac yn defnyddio’r wybodaeth yn dda i nodi targedau unigol addas i helpu plant i wella. Mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau i’w helpu i gynllunio’n briodol, gan fodloni anghenion y rhan fwyaf o blant a chan ddilyn eu diddordebau’n llwyddiannus. Caiff rhieni gyfleoedd da i ddysgu am gynnydd eu plant ar ddiwedd pob sesiwn a thrwy foreau coffi rheolaidd yn y lleoliad.

| Yr amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael dan do trwy drefnu gweithgareddau dysgu gwerthfawr o amgylch yr ystafell. Mae ymarferwyr yn gweithio'n eithriadol o galed i greu amgylchedd dysgu cyffrous a chefnogol ar gyfer y plant. Mae hyn yn heriol iawn am fod yr holl gelfi ac offer yn cael eu gosod a'u rhoi i gadw yn ddyddiol. Gwneir defnydd da o fyrddau arddangos o waith plant gan ymarferwyr i greu amgylchedd lliwgar. Mae digonedd o le yn y neuadd a digon o olau naturiol. Mae'r safle yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae hynny'n hyrwyddo diogelwch a lles plant.

Mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn gyfyngedig, ac yn cynnwys ardal fach iawn â ffens. Gwneir defnydd da o'r cyfleuster i alluogi plant i chwarae gyda thywod, dŵr a phridd yn yr awyr agored. Hefyd, mae gan y lleoliad fynediad i ardd wrth gefn y neuadd lle caiff plant gyfleoedd defnyddiol i ddysgu am blannu a thyfu. Mae plant yn mynd i'r parc lleol a'r siopau yn rheolaidd, ac mae hyn yn eu helpu i ddeall eu cymuned ac i gymdeithasu.

Mae'r safle yn ddiogel ac yn saff. Ni all unrhyw un fynd i mewn i'r eiddo oni bai bod aelod o staff yn ei adael i mewn. Mae ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a diogelwch. Maent yn atgyfnerthu negeseuon diogelwch yn rheolaidd wrth y plant, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio'r sleid neu wrth ddefnyddio cyllell amser byrbryd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg cadarn yn eu lle ac maent yn adolygu'r rhain yn ôl y gofyn. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Hefyd, mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob ymwelydd yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd a gadael.

Ceir cyflenwad rhagorol o adnoddau o ansawdd da, sy'n briodol i oed ar gyfer cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'n hawdd mynd at yr adnoddau ac maent yn cael eu storio mewn blychau lefel isel gyda labeli Cymraeg a lluniau i alluogi'r plant wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Mae ystod dda o deganau ac offer yn y lleoliad i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys dillad gwisgo i fyny ac offerynnau cerdd o wledydd eraill; er enghraifft, mae ffrogiau Tsieineaidd ar gael. Ceir dewis buddiol o adnoddau i blant ddatblygu'u medrau TGCh yn briodol, gan gynnwys teganau pell-reoli, gliniaduron ac adnoddau sain.

| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Rhagorol |
|---|---|

Mae arweinyddiaeth y lleoliad wedi'i sefydlu'n dda ac yn effeithiol iawn. Mae gweledigaeth gadarn gan y person cofrestredig ac mae'n ei chyfleu'n llwyddiannus iawn, gan greu amgylchedd gweithio pwrpasol iawn lle mae plant yn ffynnu. Mae'n diffinio rolau yn glir ac yn rhannu cyfrifoldebau yn eithriadol o dda. Drwy hyn, mae'n sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn hwylus, bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn gyfoes, a bod ffocws clir ar fodloni anghenion plant. Ni nodwyd unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad, ac mae'r lleoliad yn rhagori'n rheolaidd ar y safonau gofynnol cenedlaethol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cwblhau trosolwg defnyddiol o waith y lleoliad bob hanner tymor. Mae hyn yn eu galluogi i arfarnu cynnydd yn effeithiol ac yn sicrhau bod rheolwyr yn cael gwybodaeth gyson. O ganlyniad, mae rheolwyr yn adnabod y lleoliad yn dda iawn ac yn camu i mewn i

ddarparu cymorth pan fydd ei angen. Mae'r ymagwedd adeiladol hon yn galluogi arweinwyr ar bob lefel i bennu disgwyliadau uchel a herio pawb i wneud eu gorau. Mae'r adolygiad hefyd yn amlygu blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella yn effeithiol. Mae arweinwyr yn trosglwyddo'r blaenoriaethau hyn i gynllun datblygu'r lleoliad, gan sicrhau bod gwelliant parhaus. Mae'r lleoliad yn diweddaru ei ddatganiad o ddiben yn gyson, gan roi darlun clir a chywir o'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

Mae llinellau cyfathrebu wedi'u datblygu'n dda iawn o fewn y strwythur rheoli. Er enghraifft, mae arweinwyr sy'n cynnal y sesiynau bore a phrynhawn yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol eithriadol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn elwa o safon darpariaeth gyson uchel yn y ddwy sesiwn, a bod ymarferwyr yn delio â materion yn gyflym ac yn gwybod yn union beth a ddisgwylir ganddynt. Mae arweinwyr yn arwain drwy esiampl, gan rannu'u gwerthoedd a normau ynglŷn â dysgu, ymddygiad a pherthnasoedd yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r person cofrestredig yn darparu cyngor a chymorth gwerthfawr yn rheolaidd i helpu ymarferwyr ddatblygu'u harbenigedd wrth ddelio ag ymddygiad heriol ac anghenion unigol plant yn effeithiol.

Ceir diwylliant cadarn o welliant parhaus yn y lleoliad. Mae pob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu ac yn gwybod beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Gallant gyfeirio at welliannau rheolaidd yn y ddarpariaeth sy'n cynorthwyo anghenion dysgu plant yn effeithiol, er enghraifft, symud gweithgareddau ffocws i blant hŷn i fan tawelach, er mwyn helpu plant i ganolbwyntio'n well ar eu tasgau. Mae rheolwyr yn gwneud defnydd eithriadol o dda o wybodaeth o asesiadau plant, gan ddadansoddi'r data hwn yn ofalus er mwyn nodi unrhyw fylchau mewn dysgu neu brofiadau plant. Maent yn gweithredu'n gyflym ar eu canfyddiadau, gan sicrhau eu bod yn cynllunio'n llwyddiannus i fodloni anghenion plant. Mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro safonau addysgu a dysgu yn rheolaidd. Mae hon yn nodwedd gadarn o waith y lleoliad, sy'n galluogi ymarferwyr i ddod yn fwyfwy medrus, a delio ag unrhyw ddiffygion yn effeithiol mewn amgylchedd cefnogol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthfawrogi cyngor a chymorth gan athrawon ymgynghorol sy'n cefnogi Dechrau'n Deg a phlant tair oed sy'n cael eu hariannu. Maent yn gweithio'n galed i fodloni gofynion y ddau wasanaeth, gan edrych am ffyrdd i wella yn gyson. Mae arweinwyr a rheolwyr yn dyrannu cyllid yn briodol i gefnogi gwelliant parhaus, fel prynu offer TGCh i fodloni un o dargedau datblygu'r lleoliad. Mae gweledigaeth a chynllun strategol pwerus gan y person cofrestredig ar gyfer dyfodol y lleoliad, ac mae'n gweithio'n effeithiol tuag at gyflawni'r nod hwn.

Mae'r lleoliad yn rheoli staff ac adnoddau yn effeithiol iawn. Mae rheolwyr yn dilyn proses recriwtio gadarn sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion ac yn sicrhau bod plant yn ddiogel. Ceir staffio da yn y lleoliad ac mae gan ymarferwyr gymwysterau i'r lefel ddisgwyliedig o leiaf, a phrofiad da o weithio gyda phlant ifanc. Maent yn elwa o system oruchwylio a gwerthuso sefydledig, sy'n cefnogi ymarferwyr yn dda iawn, yn nodi anghenion hyfforddi ac yn arwain at welliant parhaus. Mae'r tîm rheoli wedi datblygu cofnod arloesol o gymhwysedd staff, sy'n helpu sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau. Mae'r person cofrestredig yn gweithredu system fewnol i gyflenwi dros absenoldeb staff, ac mae hyn yn darparu parhad gofal gwerthfawr i blant os yw ymarferwyr i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r lleoliad yn rheoli ei gyllideb yn dda ac yn blaenoriaethu gwariant yn effeithiol i sicrhau bod plant yn elwa o lefelau staffio da a'r

defnydd o adnoddau o ansawdd da.  Mae'r rheolwr ardal yn darparu cymorth gwerthfawr i arweinwyr y lleoliad drwy wneud ceisiadau am gyllid grant ychwanegol i gefnogi prosiectau penodol.

Mae arweinwyr wedi datblygu ystod fuddiol o bartneriaethau sydd o fudd i'r plant. Ceir partneriaeth gadarn â rhieni.  Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r llawer o ffyrdd gwahanol a ddefnyddir gan ymarferwyr i rannu gwybodaeth am gynnydd eu plant gyda nhw, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.  Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i rieni i gyfrannu'u syniadau ar gyfer teithiau a themâu, gan helpu i wneud yn siŵr bod gweithgareddau'n adlewyrchu diddordebau plant yn briodol.  Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau cymorth, fel yr ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg, gan ddarparu'n effeithiol ar gyfer anghenion ychwanegol ac anghenion emosiynol plant.  Gwneir defnydd da gan y lleoliad o'r cysylltiadau cadarn â'r gymuned leol. Mae perthynas weithio bwrpasol gyda'r ysgol leol yn helpu paratoi plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae ymweliadau rheolaidd â'r parc a'r siopau lleol yn helpu plant i ddatblygu'u medrau corfforol, a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch.

# Atodiad 1

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – yn dynodi Amh.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 17 | 14<br>82% | 3<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child likes this setting. | 16 | 14<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | - | - | - | - | | |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 1 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p’un ai i ddefnyddio’r lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 17 | 16<br>94% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy’n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is making good progress at the setting. | 17 | 12<br>71% | 5<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| Children behave well in the setting. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| Care is good. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae’r gofal yn dda. |
| | | - | - | - | - | | |
| Teaching is good. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | - | - | - | - | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | - | - | - | - | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 17 | 14<br>82% | 3<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 12<br>75% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | - | - | - | - | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 17 | 12<br>71% | 5<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | - | - | - | - | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | - | - | - | - | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | - | - | - | - | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | - | - | - | - | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | - | - | - | - | | |
| The setting is well run. | 17 | 13<br>76% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | - | - | - | - | | |

# Atodiad 2

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ac AGGCC (www.estyn.gov.uk) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn yr ymadrodd anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion yn ychwanegol at anghenion y rhan fwyaf o'r plant eraill yn y lleoliad, am sawl rheswm gwahanol. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys y Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r Person â Gofal<br>• Person Cofrestredig – y person sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gall fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn Cyfrifol – pan fydd y person cofrestredig yn sefydliad, dyma rywun wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar ei ran<br>• Person â Gofal – yr unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig i fod â gofal llawn am y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Dyma'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim i blant dwy oed cymwys i helpu i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Hefyd, darparant lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **System unigolyn allweddol neu weithiwr allweddol** | Dyma ymarferydd sydd wedi'i neilltuo i bob plentyn fel bod rhywun cyfarwydd, dibynadwy ar gael i'r plentyn a bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'n meithrin perthynas gadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Ymarferwyr** | Pob unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliad. |